# *Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru*
# *RhaglenPGCE : Bwletin Ymchwil*

**Rhifyn 2: Ebrill 2022**

Croeso i fwletin ymchwil y Rhaglen TAR.
Diolch i chi am eich adborth ar y bwletin ymchwil cyntaf. Bydd y meysydd sydd gan bobl ddiddordeb ynddynt yn cael eu cynnwys mewn bwletinau yn y dyfodol.
Os gwelwch yn dda, parhewch i anfon adborth ar bynciau sydd o ddiddordeb arbennig i chi a'ch lleoliad a byddwn yn gwneud ein gorau i gynnwys eitemau perthnasol mewn bwletinau yn y dyfodol.
Hefyd, cysylltwch ag Alison Glover (alison.glover@open.ac.uk) os ydych chi a/neu eich lleoliad yn gysylltiedig ag unrhyw ymchwil, oherwydd byddem yn croesawu'r cyfle i'w rannu ar draws y Bartneriaeth.

## *Yn y rhifyn hwn ...........*

**Troi iardiau chwarae ysgol yn wyrdd:** Barn rhieni am fanteision ac anfanteision iardiau gwyrdd neu balmantog.

**Gwaith cartref:** Mae cynnwys rhieni yn addysg eu plant yn werthfawr, ond gall ymgysylltiad rhieni â gwaith cartref fod yn anodd. Darperir rhai egwyddorion ar gyfer cynllunio tasgau gwaith cartref.

**Dyfodol llwyddiannus, cwricwlwm llwyddiannus:** Mae angen rhoi sylw i atebolrwydd, dysgu proffesiynol a chyd-destun y rhwydwaith cymdeithasol er mwyn gwireddu dyheadau'r cwricwlwm cenedlaethol.

**Lles athrawon:** Astudiaeth ar y berthynas rhwng boddhad swydd a lles sy'n gysylltiedig â swydd.

**Gwerthfawrogi'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru:** Gweithiodd aelodau o'r tîm TAR gydag Ymchwil Arad Research i ymchwilio i 'barodrwydd y system' ar gyfer y cwricwlwm newydd. Adroddiad wedi ei gyhoeddi.

**Ymchwil arall gan y Brifysgol Agored: Grymuso athrawon i helpu plant i ddarllen er pleser** – Crynodeb o sut mae'r prosiect Darllen er Pleser yn datblygu athrawon ac yn ysbrydoli plant ledled Lloegr a thu hwnt i ddarganfod y pleser o ddarllen.

## Troi iardiau chwarae ysgol yn wyrdd

*'Yn gyffredinol, roedd rhieni'n gweld mwy o fanteision nag anfanteision i iard ysgol werdd, a nododd llawer o rieni nad yw anfanteision, megis plant yn dod adref yn fudr, yn bwysig iawn iddynt.'*

Mae ailgysylltu plant â natur y tu ôl i'r symudiad cynyddol o wneud iardiau chwarae ysgol yn wyrddach. Cynhwysir elfennau naturiol megis coed, blodau, tywod a dŵr, ac anogir y plant i ryngweithio a chwarae â natur. Cynhaliodd yr astudiaeth hon o'r Iseldiroedd arolwg gyda 402 o rieni, a chanfod fod rhieni am fod yn rhan o iard ysgol werdd, ond dim ond hyd at ryw raddau. Daeth i'r casgliad y dylai ysgolion gofleidio canfyddiad cadarnhaol rhieni, ond eto dylent fod yn sensitif i'w hanghenion, eu pryderon a'u galluoedd.

van Dijk-Wesselius, J.E., Hovinga, D., de Koning, M., Maas, J. a van den Berg, A.E. (2021) 'Parental perspectives on green schoolyards: advantages outweigh disadvantages, but willingness to help is limited', *Children's Geographies*, 19(2), pp. 145-157. doi.org/10.1080/14733285.2020.1751071.

## Gwaith Cartref

*'Nid oes unrhyw ganllawiau ffurfiol ar gyfer faint o waith cartref sydd ei angen ar blant o wahanol oedrannau yn y DU. '*

Mae ymchwil ryngwladol yn awgrymu bod pedair awr o waith cartref yr wythnos yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell, ond prin iawn yw effaith mwy na hyn o waith cartref ar berfformiad. Dylai ysgolion gynnwys rhieni mewn unrhyw newidiadau i brosesau gwaith cartref. Dim ond os yw'n debygol o gefnogi meistrolaeth pobl ifanc o'u gwaith y dylid gosod gwaith cartref. Dylai mewnbwn rhieni fod ar gyfer cymorth moesol yn bennaf, yn hytrach na chynnwys penodol; ar gyfer ymreolaeth a hunan-gred – yr agweddau a'r sgiliau a fydd yn cefnogi dysgu a hunan-gred yn y tymor hir.

Goodall, J. (2021) 'Scaffolding homework for mastery: engaging parents', *Educational Review*, 73(6), pp. 669-689. doi.org/10.1080/00131911.2019.1695106.

## Dyfodol llwyddiannus, cwricwlwm llwyddiannus

*'Mewn sawl ffordd, mae'r cwricwlwm yn nodweddiadol o bolisi diweddar 'cwricwlwm newydd' ar draws y byd.'*

Ymosodwyd ar gwricwla newydd mewn gwledydd fel yr Alban, Seland Newydd a'r Iseldiroedd am israddio gwybodaeth. Beirniadwyd y gorbwyslais ar sgiliau mewn cwricwla o'r fath. Er y gall rhoi annibyniaeth i athrawon gynyddu'r ymdeimlad o reolaeth, mae perygl hefyd bod 'unrhyw beth yn bosib'. Yn absenoldeb cynnwys cwricwlaidd penodedig, gellir cael mwy o reoleiddio allbwn – data arolygiadau/cyflawniad.

Ymddengys bod rhagdybiaeth y gall ysgolion lunio'r cwricwlwm, eto mae hyn yn amrywio'n fawr. Mae dadansoddiad rhwydwaith cymdeithasol yn adrodd bod rhwydweithiau o fewn ysgolion wedi eu cysylltu'n ddwys, tra bod rhwydweithiau traws-ysgol yn llawer prinach a chyda lefel is o gysylltedd. Cydnabyddir y parch mawr at y cwricwlwm o'r cychwyn cyntaf yn Seland Newydd a'r Iseldiroedd, gyda'r prosesau cyfranogol a fabwysiadwyd yno. Yn hytrach na pha bynciau y dylem eu haddysgu, dylem holi pa wybodaeth, sgiliau a phriodoleddau sydd eu hangen?

Sinnema, C., Nieveen, N. a Priestley, M. (2020) 'Successful futures, successful curriculum: What can Wales learn from international curriculum reforms?', *The Curriculum Journal, 31(2)*, pp. 181-201. doi.org/ 10.1002/curj.17.

## Lles athrawon

*'Emosiynau cadarnhaol oedd yn darparu'r cyfraniad cryfaf wrth ragweld boddhad swyddi.'*

Mae prinder athrawon a chyfraddau trosiant cynyddol yn destun pryder rhyngwladol. Credir bod boddhad athrawon yn hanfodol wrth gadw athrawon sy'n gallu cynnal iechyd ac effeithiolrwydd mewn amodau heriol. Mae pum dimensiwn yn cael eu nodi i gysyniadu lles sy'n gysylltiedig â swydd: emosiynau cadarnhaol; ymgysylltu; perthnasoedd; ystyr a chyflawniad. Mewn astudiaeth gyda 511 o athrawon ysgol o'r Almaen, roedd lles yn amrywio'n sylweddol wrth gymharu athrawon â boddhad swydd uchel gydag athrawon â boddhad swydd isel. Nododd athrawon benywaidd ymgysylltiad uwch amwy o ystyr sy'n gysylltiedig â swyddi o gymharu â chymheiriaid gwrywaidd. Nododd athrawon iau well perthynas na chydweithwyr hŷn, ond roedd y gwahaniaethau'n fach. Emosiynau cadarnhaol, ac yna perthnasoedd a chyflawniad sy'n cyfrannu fwyaf at lesiant. Cynigir y gallai astudiaethau pellach yn y dyfodol gynnwys arsylwadau, cyfweliadau a data myfyrwyr.

Dreer, B. (2021) 'Teachers' well-being and job satisfaction: the important role of positive emotions in the workplace', *Educational studies*. doi.org/10.1080/03055698.2021.1940872.

### Gwerthuso'r cwricwlwm a diwygiadau asesu yng Nghymru – y diweddaraf

Fel yr adroddwyd yn Rhifyn 1, comisiynwyd Ymchwil Arad Research a'r Brifysgol Agored yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i 'barodrwydd y system' ar gyfer gweithredu'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Mae'r adroddiad terfynol, sy'n cyflwyno ymatebion yr arolwg a gyflwynwyd gan Brifathrawon, uwch arweinwyr ac ymarferwyr, i'w weld yma.

### Ymchwil arall gan y Brifysgol Agored: Grymuso athrawon i helpu plant i ddarllen er pleser

Mae dros 300 o ysgolion cynradd, 5,000 o weithwyr addysgu proffesiynol, 4,000 o athrawon dan hyfforddiant a miliynau o ddisgyblion ysgol yn adeiladu cymunedau darllen. Gan ddefnyddio data a gasglwyd ers 2017, nodir bod y canlynol yn allweddol i helpu athrawon i annog plant i ddarllen er pleser:

1. Gwell gwybodaeth am lenyddiaeth plant a thestunau eraill.
2. Dealltwriaeth o arferion darllen bob dydd plant.
3. Arferion addysgu darllen er pleser, megis creu amser i ddarllen, darllen yn uchel, siarad yn anffurfiol am lyfrau a rhannu argymhellion mewn amgylchedd darllen cymdeithasol.
4. Hunaniaeth 'Athro Darllen' fel athrawon sy'n darllen a darllenwyr sy'n addysgu.
5. Cymunedau darllen cyfatebol a rhyngweithiol o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mae cwrs ar-lein am ddim bellach ar gael wedi'i anelu at athrawon, cynorthwywyr addysgu, arweinwyr ysgolion, gwirfoddolwyr darllen, rhieni a phawb sydd â diddordeb mewn meithrin darllen plant.



SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK




**Nodyn atgoffa:** y dyddiad cau i gyflwyno crynodeb ar gyfer Cynhadledd Ymchwil Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru yw dydd Gwener 22 Ebrill.

**Atgoffir pob myfyriwr TAR3 ac ymarferwyr mewn ysgolion partner** i gyflwyno eu crynodebau (100-200 gair) er mwyn cymryd rhan mewn cyflwyniadau bord gron fydd yn rhannu arfer ymchwil ar draws y bartneriaeth.

Ceir rhagor o fanylion yma. Cyflwynwch eich crynodeb yma.